newyddion LLAIS SIR GÂR

Carmarthenshire Voice

Llais Sir Gâr

A'R ENILLYDD YW...

Diolch i bawb a gyfrannodd at ein harolwg diwethaf. Mae cwblhau'r arolygon yn cymryd amser, ac mae'r ymatebion rydym wedi eu derbyn yn dangos yn glir eich bod wedi rhoi ystyriaeth ddwys i bob cwestiwn.

I ddangos ein bod yn gwerthfawrogi eich ymdrechion ac i ddiolch ichi, rydym yn cynnwys pob un o'r arolygon a ddychwelir mewn raffl fawr. Dewiswyd enillydd ar hap ar gyfer Arolwg 18 a bellach mae ein henillydd, o ardal Llanymddyfri, £50 yn gyfoethocach!

Sicrhewch eich bod yn cwblhau Arolwg 19 (yn amgaeëdig) i gael cyfle i ennill y tro nesaf.

AROLWG 18 (Tach 2006)

Cawsom 599 o ymatebion i'r arolwg hwn, gan roi cyfradd ymateb o 54%.

Yn arolwg 18 roeddem wedi gofyn am eich barn am nifer o faterion, gan gynnwys cyllideb Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2007/08, eich arferion pleidleisio, Canolfan Gyswllt Heddlu Dyfed-Powys, plismona yn Sir Gaerfyrddin, a'r Gwasanaethau Iechyd Cymunedol.

Mae eich ymatebion i arolwg 18 wedi eu dadansoddi, ac rydym wedi cynnwys y canlyniadau yn y llythyr newyddion amgaeëdig. Hefyd rydym wedi manylu ar y canlyniadau hyd yn hyn, ac wedi bwrw golwg yn ôl ar ganlyniadau rhai arolygon blaenorol.

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Pleidleisio

Roedd y rhan fwyaf ohonoch wedi rhoi gwybod i ni nad oeddech chi 'byth neu braidd byth' yn colli eich cyfle i bleidleisio yn yr etholiadau canlynol: Etholiadau Seneddol (80%), Etholiadau'r Cyngor Sir (68%), Etholiadau'r Cynulliad (68%), Etholiadau Cynghorau Cymuned (61%), ac Etholiadau Senedd Ewrop (59%).

Y tri rheswm pennaf a roesoch i ni dros y lleihad sydd wedi bod o ran canran y bobl sydd yn bwrw eu pleidlais oedd: difaterwch a dihidrwydd ynghylch gwleidyddiaeth a gwleidyddion (31%), diffyg ymddiriedaeth ac addewidion ffug (9%), y pellter sydd rhwng ymgeiswyr a Chynghorwyr ar y naill law a'r cyhoedd ar y llaw arall (7%), ac am fod pobl yn credu nad oedd gwerth i'w pleidlais ac nad oedd dim yn newid (7%).

Mae dau fersiwn o'r gofrestr - y fersiwn llawn a'r fersiwn golygedig.

Mae'r gofrestr LAWN yn rhestru pawb sydd â hawl i bleidleisio. Fodd bynnag dim ond rhai pobl sy'n gallu cael copïau o'r gofrestr hon, a gallant ei defnyddio at ddibenion penodol yn unig.

Mae modd i unrhyw un sy'n gofyn am gopi brynu'r gofrestr OLYGEDIG a'i defnyddio at unrhyw ddiben.

Roedd 96% ohonoch wedi dweud eich bod yn ymgofrestru'n flynyddol; fodd bynnag, doedd 63% ohonoch ddim yn gwybod eich bod yn gallu dewis gofyn am i'ch enw gael ei dynnu oddi ar y gofrestr olygedig.

HEDDLU DYFED-POWYS

Eich Heddlu Chi – Eich Barn Chi

Yn eich barn chi, faint o droseddu ac anhrefn sydd yn eich ardal chi o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Prydain?
Roedd 70% ohonoch yn barnu bod llai neu lawer llai o droseddu ac anhrefn yn eich ardal chi o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Prydain. Roedd 18% yn barnu bod y lefelau rywbeth yn debyg, roedd 8% wedi dweud nad oeddynt yn gwybod, ac roedd 4% yn barnu bod mwy neu lawer mwy o droseddu yn eu hardal nhw.

A ydych yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded ar eich pen eich hun yn eich ardal chi ar ôl iddi nosi?
Roedd 48% ohonoch yn dweud eich bod yn teimlo'n weddol ddiogel wrth gerdded ar eich pen eich hun yn eich ardal chi ar ôl iddi nos, roedd 17% ohonoch yn dweud eich bod yn teimlo'n ddiogel iawn, ac roedd 13% ohonoch yn teimlo'n weddol anniogel. Dywedodd 13% ohonoch nad oeddech yn mynd mas ar eich pen eich hun, dywedodd 5% eich bod yn teimlo nad oeddech yn ddiogel o gwbl, ac nid oedd barn bendant gan 4%.

Yn eich barn chi pa feysydd y dylai'r heddlu eu targedu yn Sir Gaerfyrddin?
Roedd y nifer mwyaf ohonoch yn barnu y dylai'r heddlu yn Sir Gaerfyrddin hoelio eu sylw ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, ynghyd â phlismona gweladwy, a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

Faint o broblem yw'r pethau canlynol yn eich ardal chi?

Mae'r tabl isod yn dangos bod y nifer mwyaf ohonoch yn teimlo nad oedd y rhain yn broblem fawr iawn yn eich ardal.

	Yn broblem fawr iawn	Yn broblem eithaf mawr	Ddim yn broblem fawr iawn	Ddim yn broblem o gwbl
Pobl ifainc yn eu harddegau yn sefyllian ar y stryd	14%	25%	**39%**	22%
Sbwriel neu annibendod ar hyd y lle	19%	25%	**45%**	11%
Llochesi bysiau a chiosgau ffôn yn cael eu fandaleiddio	11%	23%	**48%**	19%
Mathau eraill o eiddo cyhoeddus yn cael eu fandaleiddio	11%	25%	**47%**	18%
Graffiti ar adeiladau cyhoeddus	7%	16%	**54%**	23%
Pobl yn defnyddio neu'n gwerthu cyffuriau	16%	24%	**38%**	22%
Pobl yn feddw neu'n stwrllyd mewn mannau cyhoeddus	17%	23%	**41%**	20%

Pa mor bryderus ydych chi ynghylch...?

Mae'r tabl isod yn dangos bod y nifer mwyaf ohonoch yn teimlo nad oeddech yn bryderus iawn neu'n bryderus o gwbl ynghylch y dewisiadau canlynol.

	Yn bryderus iawn	Yn weddol bryderus	Ddim yn rhyw bryderus iawn	Ddim yn bryderus o gwbl
Bod rhywun yn eich sarhau neu yn eich poeni ar y stryd	10%	18%	**51%**	21%
Bod fandaliaid yn difrodi eich eiddo	14%	27%	**42%**	17%
Bod rhywun yn dwyn eich car / fan	17%	30%	**40%**	13%
Bod rhywun yn dwyn pethau o'ch car / fan	16%	31%	**42%**	12%
Bod rhywun yn torri i mewn i'ch cartref ac yn dwyn rhywbeth oddi arnoch	19%	31%	**41%**	10%
Bod rhywun yn ymosod arnoch neu'n lladrata oddi arnoch	15%	19%	**51%**	15%
Bod dieithriaid yn ymosod arnoch yn gorfforol	14%	20%	**49%**	17%
Bod rhywun yn ymosod arnoch yn gorfforol oherwydd lliw eich croen, eich cefndir ethnig, neu eich crefydd	4%	7%	37%	**52%**
Bod rhywun yn ymosod arnoch yn rhywiol	7%	12%	**41%**	40%

Gweithredu:

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn awyddus i gael barn y cyhoedd drwy'r amser ynghylch y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ac ynghylch pa faterion y dylid hoelio sylw arnyn nhw yn lleol.

Cafodd canlyniadau'r holiadur hwn a holiaduron eraill a gynhaliwyd gan y llu eu defnyddio gan Awdurdod yr Heddlu wrth bennu'r blaenoriaethau plismona am 2007/08. Rydym wedi gwrando ar eich barn a'ch sylwadau, gan y byddwn yn hoelio sylw yn ystod y flwyddyn nesaf ar droseddau treisgar, cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sef y themâu a gafodd gryn sylw gan lawer ohonoch wrth i chi ymateb i'r holiaduron.

Hefyd roedd nifer ohonoch am gael gwasanaeth plismona mwy gweladwy yn eich ardal. Plismona Bro yw'r allwedd i'r mater hwn. Bydd timau Plismona Bro yn cael eu ffurfio ledled Sir Gaerfyrddin yn ystod y misoedd nesaf; bydd y rhain yn cynnwys swyddogion yr Heddlu a 29 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Y bwriad yw darparu gwasanaeth gweladwy er mwyn rhoi tawelwch meddwl i bobl ledled y sir.

Ochr yn ochr â'r fenter hon, mae nifer o ganolfannau cymunedol wedi eu sefydlu ar gyfer Timau Plismona Bro, ac mae nifer o gerbydau ychwanegol, gan gynnwys swyddfeydd heddlu teithiol, wedi eu prynu. Nod y cynllun Plismona Bro yw cydweithio â chi er mwyn gweld beth yw'r problemau sy'n effeithio ar eich ardal chi; y cam nesaf yw cytuno ar y cyd ar ffyrdd o fynd ati i gael gwared â'r problemau hynny, ac yna byddwn yn cydweithio i roi'r cynlluniau ar waith.. Ein nod, trwy wneud hyn, yw sicrhau bod gan yr heddlu bresenoldeb gweladwy, sef eich dymuniad chi, a bod yr heddlu yn dal i 'Ddiogelu Ein Cymuned' drwy Blismona Bro.

CANOLFAN GYSWLLT HEDDLU DYFED-POWYS

Er bod 72% ohonoch wedi dweud nad oeddech wedi ffonio'r Heddlu yn Nyfed-Powys yn ystod y 12 mis diwethaf, o blith y rheiny oedd wedi ffonio roedd 130 wedi ffonio unwaith, roedd 13 wedi ffonio ddwywaith ac roedd 11 wedi ffonio deirgwaith neu ragor cyn siarad â rhywun.

Unwaith eto o blith y bobl a oedd wedi ffonio, yr oedd 71% wedi dweud bod yr alwad wedi ei hateb o fewn yr amser disgwyliedig. Roedd 15% wedi dweud bod yr alwad wedi ei hateb yn arafach na'r disgwyl, roedd 9% wedi dweud bod yr alwad wedi ei hateb yn gynt na'r disgwyl, ac nid oedd 5% yn gallu cofio.

Petai oedi o ran ateb eich galwad, beth fyddai'n well gennych...?
Dywedodd 64% ohonoch y byddai'n well gennych petaech yn gallu gadael neges, dywedodd 29% ohonoch y byddai'n well gennych aros mewn ciw, a dywedodd 7% ohonoch y byddai'n well gennych ffonio nôl yn ddiweddarach.

Gweithredu:

Bob mis mae'r Ganolfan Gyswllt yn ymdrin â mwy na 50,000 o alwadau, gan gynnwys galwadau brys. Er gwaetha'r prysurdeb mawr hwn, mae canran y galwadau na lwyddir i'w hateb y tro cyntaf yn llai na 10%. Dylai'r sawl sydd yn poeni am unrhyw oedi cyn i alwadau gael eu hateb ystyried taw'r safon genedlaethol ar gyfer ateb yw 90% o'r galwadau cyn pen 40 eiliad; ar hyn o bryd mae Dyfed-Powys yn llwyddo i ateb 88% o'r alwadau yn yr amser hwn.

Roedd adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) am yr Asesiad Sylfaenol yn 2006 wedi datgan bod y Llu wedi cael ei symud o'r dosbarth GWEDDOL i'r dosbarth DA; ac mae hynny yn gryn gamp o ystyried bod y ganolfan wedi bod ar agor am 12 mis yn unig. Mae hyn yn pwysleisio'r proffesiynoldeb sydd yn amlwg bellach o ran y gwasanaeth o safon a roddir i bobl Dyfed-Powys.

Ond nid hynny yw diwedd y gân, gan fod tîm y Ganolfan Gyswllt yn datblygu arferion rheoli newydd a fydd yn lleihau'r gwasgfeydd cyffredinol sydd ar swyddogion rheng flaen; bydd hyn yn olygu y bydd gan y swyddogion hynny ragor o amser i'w neilltuo i waith Plismona Bro yn y cymunedau lle maen nhw'n gweithio.

BWRDD IECHYD LLEOL SIR GAERFYRDDIN

Ar y cyfan, beth yw eich barn am ansawdd y gwasanaethau canlynol yn eich ardal chi?

Roedd y nifer mwyaf ohonoch wedi dweud bod y fferyllfeydd a'r meddygfeydd yn dda iawn (53% o ran y naill a 36% o ran y llall) a bod y gwasanaethau deintyddol yn wael iawn (23%).

O ran y gwasanaethau podiatreg, ffisiotherapi a nyrsys ardal, roedd y nifer mwyaf ohonoch wedi dweud 'nad oeddech yn gwybod' (sef 46%, 40% a 38% o ran pob un o'r gwasanaethau hyn). Fodd bynnag, o blith y bobl a oedd yn gwybod / a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn, yr oedd y nifer mwyaf (28%) wedi dweud bod y gwasanaeth nyrsys ardal yn dda, a bod y gwasanaethau ffisiotherapi a phodiatreg yn ganolig eu safon (21% ac 17%).

Ymhlith yr argymhellion yn yr Adolygiad o'r Gwasanaethau Cymunedol, mae un argymhelliad i ddarparu gwasanaethau cyn agosed â phosibl i gartrefi pobl, gan roi pwyslais ar gadw pobl yn eu cartrefi eu hunain am gymaint o amser â phosibl, ac roedd 82% ohonoch yn barnu bod hynny yn syniad da iawn neu'n syniad da.

Gofal rheolaidd a gwasanaeth adsefydlu

Dywedodd y rhan fwyaf ohonoch (89%) y byddai'n well gennych gael gofal rheolaidd a gwasanaeth adsefydlu yn eich cartref eich hun; fodd bynnag dim ond hanner yr ymatebwyr oedd yn gwybod y gallai hyn gael ei ddarparu bellach.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am gael gofal a gwasanaeth adsefydlu yn eich cartref eich hun, cysylltwch â Peter Llewellyn drwy ffonio 01554-744460 neu drwy e-bostio: peter.llewellyn@carmarthenlhb.wales.nhs.uk

Argymhellion ynghylch Gwasanaethau Cymunedol

Roeddem wedi gofyn i chi beth oedd eich barn am nifer o argymhellion ynghylch Gwasanaethau Cymunedol, ac roeddech wedi ymateb fel a ganlyn. Roedd 37% ohonoch yn barnu bod angen pwyllo er mwyn rhoi rhagor o ystyriaeth i'r mater cyn cyfuno'r Gwasanaethau Iechyd Cymunedol lleol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar ffurf un gwasanaeth integredig; fodd bynnag, yr oedd 31% ohonoch yn barnu bod hynny yn syniad da.

Roedd 65% ohonoch yn barnu bod cael un pwynt cyswllt (rhif ffôn) ar gyfer yr holl Wasanaethau Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol yn syniad da iawn neu'n syniad da, ac roedd 88% ohonoch yn barnu bod cydweithio â'r Sector Gwirfoddol er mwyn trefnu bod pobl yn gallu cael rhai Gwasanaethau Cymunedol yn eu cartrefi eu hunain e.e. siopa, casglu presgripsiynau, mân waith atgyweirio, yn syniad da iawn neu'n syniad da.

Gweithredu:

Cafodd canlyniadau arolwg 18 eu defnyddio yn yr Adolygiad o'r Gwasanaethau Cymunedol, sy'n cael ei gynnal gan y Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin er mwyn ceisio cryfhau'r gwasanaethau cymunedol a'r gwasanaethau gofal canolraddol. Mae hyn yn unol â strategaeth 'Cynllun Oes' Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n datgan nad yw'r ffordd bresennol o gynnal y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gynaliadwy, ac yn hytrach dylid anelu at ddarparu gwasanaethau i bobl yn eu cartrefi eu hunain neu cyn agosed â phosibl i'w cartrefi.

Dywedodd Jane Jeffs, Cadeirydd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Sir Gaerfyrddin, "Diben yr adolygiad yw cryfhau'r gwasanaethau meddygol cymunedol gan sicrhau bod pobl yn gallu cael y gwasanaethau mwyaf priodol mewn man priodol.

Rwyf yn gobeithio y bydd y cyhoedd yn mynd i gyfarfodydd y panelau hyn, ac yn cymryd rhan yn yr ymgynghori ffurfiol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Dyma'r adeg i fod yn gysylltiedig â hyn, er mwyn datblygu gwasanaethau i'r dyfodol."

Mynnwch ddweud eich dweud

Mae'r cyhoedd yn cael eu hannog i leisio eu barn am yr Adolygiad o'r Gwasanaethau Cymunedol yn y panelau iechyd anffurfiol. Bydd y banel nesaf yn cael eu cynnal dydd Gwener 11 Mai am 1 p.m. yn Canolfan Selwyn Samuel, Llanelli.

I gael rhagor o wybodaeth am y panelau iechyd neu ffyrdd eraill o fod yn gysylltiedig â'r adolygiad, cysylltwch â Peter Llewellyn, y Rheolwr Cynllunio a Chomisiynu Gwasanaethau Oedolion, Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin, drwy ffonio 01554 744460.

Ymgynghori ynghylch Cyllideb 2007/08

Roeddech wedi dweud taw'r tair blaenoriaeth i chi oedd 'teimlo'n ddiogel - cymunedau mwy diogel' (72%), 'teimlo'n dda - iechyd a lles' (68%), a 'gwell lle - yr amgylchedd' (65%).
O ran pa mor llwyddiannus oedd y Cyngor yn eich barn chi yn cyflawni ei flaenoriaethau, roeddech yn barnu bod y Cyngor yn eithaf llwyddiannus o ran yr Amgylchedd - 'gwella'r byd o'n hamgylch' (66%), Dysgu Gydol Oes (60%), Iechyd a Lles (58%), Adfywio - 'buddsoddi ac arloesi' (47%), a Chymunedau Mwy Diogel (47%). Doeddech chi ddim yn meddwl bod y Cyngor yn llwyddiannus nac yn aflwyddiannus o ran Adeiladu Gwell Cyngor (41%), nac o ran Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau (38%).

Eich Blaenoriaethau Chi o ran Ariannu Gwasanaethau
Hefyd roeddem wedi gofyn i chi nodi pa feysydd gwasanaeth oedd bwysicaf i chi o dan bob pennawd blaenoriaeth, ac roeddech wedi ateb fel a ganlyn:

- **Yr Amgylchedd** - Y gwasanaethau stryd e.e. casglu sbwriel, cynnal a chadw'r palmentydd, glanhau strydoedd, a goleuo strydoedd.
- **Dysgu Gydol Oes** – Ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd
- **Iechyd a Lles** – Gwasanaethau a chyfleusterau i gleifion ac i bobl anabl
- **Adfywio** – Darparu cyfleoedd i bobl ifainc gael gyrfa
- **Cymunedau Mwy Diogel** – Rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol

Ddiweddariad : Uned Diogelwch Ffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin

Megadrive (Arolwg 16)

Cynllun yw Megadrive ar gyfer pobl ifainc sydd ar fin cael eu trwydded yrru dros dro. Mae'r cynllun wedi ei drefnu ar ffurf cyfres o weithdai er mwyn rhoi gwybodaeth i bobl ifainc ynghylch pob agwedd ar yrru, gan gynnwys y peryglon posibl. Y nod cyffredinol yw hybu ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb a dinasyddiaeth, yn ogystal â lleihau niferoedd y bobl ifainc 17-25 oed sy'n cael eu lladd ar y ffyrdd. Yn ystod y gweithdai mae'r 3 gwasanaeth brys yn ail-greu damwain car ar gyflymder. Mae'r cynllun dan arweiniad Cyngor Sir Caerfyrddin, law yn llaw â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heddlu Dyfed-Powys, a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, ymysg eraill.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i gynnal rhagor o ddigwyddiadau Megadrive; fodd bynnag does dim rhagor o ddigwyddiadau wedi eu trefnu ar hyn o bryd - mae'r Uned Diogelwch Ffyrdd wrthi yn ystyried ffyrdd o wella Megadrive, e.e. un awgrym yw cyflwyno Megadrive yn yr ysgolion, gan drefnu bod y digwyddiadau yn rhan o'r cwricwlwm presennol.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Uned Diogelwch Ffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin drwy ffonio 01267 224346.

Mae 'Pass Plus Cymru' yn gynllun a gyllidir yn bennaf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n cael ei drefnu ar ffurf cyrsiau misol a gynhelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin (ar y cyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru). Yn ystod y cyrsiau hyn mae pobl ifainc yn cael gwersi ymarferol er mwyn gwella eu sgiliau gyrru, ynghyd â sesiynau lle cyflwynir y damcaniaethau. Mae'r gyrwyr ifainc sy'n llwyddo i gwblhau'r cwrs yn gallu cael yswiriant am bris gostyngol. (Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy gael golwg ar y wefan ganlynol: http://www.dragondriver.com/ppcindex.htm

YMATEB

Daliwch i roi eich barn i ni, er mwyn i ni barhau i wneud gwelliannau. Os hoffech gynnig sylwadau ar unrhyw agwedd benodol ar Banel Dinasyddion Sir Gâr, cysylltwch â:

Y Cydlynydd Ymgynghori
Polisi a Chwsmeriaid
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Dref
Llanelli SA15 3AH

Ffôn: 01554 742304
E-bost: consultation@carmarthenshire.gov.uk

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch ar ffurf print bras, Braille neu dâp sain, ffoniwch 01554 742304.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Bwrdd Iechyd Lleol Local Health Board

PANEL DDINASYDDION SIR GAERFYRDDIN